

Andrew Jarrett
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

a.jarrett@npt.gov.uk

Dyddiad: 12/01/2023

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gweithgarwch rhwng 7 a 10 Tachwedd 2022. Diben yr adolygiad oedd rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

1. A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei fodloni?

- 1.1. Mae'r awdurdod lleol wedi llunio fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau bod y trothwy ar gyfer yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG) wedi ei fodloni.
- 1.2. Roedd tystiolaeth dda bod plant yn rhan greiddiol o brosesau meddwl yn strategol, prosesau gwneud penderfyniadau ac arferion gweithredol. Cafodd diwylliant o weithio mewn partneriaeth ei lywio gan uwch-arweinwyr sydd wedi gweithio'n galed i roi egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith, ac sydd wedi buddsoddi mewn gwasanaethau o ansawdd da wedi'u darparu gan weithlu medrus, uchel ei gymhelliant.
- 1.3. Roedd yr amrywiaeth gynhwysfawr o ddogfennau strategol a gweithredol a welwyd yn gydnaws â'r egwyddorion a'r disgwyliadau o ran arferion gorau gweithredol a nodwyd yn adroddiad gweithgor yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ agc@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- yn 2021. Roedd y dogfennau hyn wedi ymsefydlu'n gadarn ac roeddent yn cynnwys pecyn cymorth gwneud penderfyniadau a oedd yn cyfeirio gweithwyr at bolisiau cyfredol, gwybodaeth gyfredol am arferion a gwaith ymchwil cyfredol. Mae siart llif ategol yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith dadansoddi a gwneud penderfyniadau proffesiynol. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn hyderus yn yr hyfforddiant a gawsant ac o ran eu dealltwriaeth o'r disgwyliadau o ran arferion.
- 1.4. Mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu fframwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'i ategu gan egwyddorion trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac arferion yn seiliedig ar gydberthnasau. Mae tystiolaeth o ffeiliau achos a chyfweliadau yn dangos uchelgais yr awdurdod a'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod plant y mae angen help arnynt ac y mae angen eu hamddiffyn yn cael gwasanaeth amserol sy'n diwallu eu hanghenion. Roedd pob achos a welwyd yn cael ei oruchwylio'n glir gan reolwr ac roedd y rhesymeg dros benderfyniadau yn cael ei chofnodi.
 - 1.5. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau gofal a chymorth a welwyd yn drylwyr, yn amserol ac yn canolbwyntio ar y plentyn; roedd yr asesiadau gorau yn nodi cryfderau'r teulu ac yn cofnodi'r materion yn deillio o'r 'sgwrs beth sy'n bwysig' yng ngeiriau'r plentyn a'r teulu eu hunain.
 - 1.6. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn hyderus bod arferion yn seiliedig ar gydberthnasau yn eu helpu i gynnal y sgysiau cadarn sydd eu hangen â theuluoedd, er mwyn deall y risgiau a'r ffactorau amddiffynnol mewn perthynas â'r plentyn yn well. Roedd y broses o nodi a dadansoddi risgiau yn y cofnod ysgrifenedig yn amlwg ond yn amrywiol, a byddai'n werth defnyddio iaith symlach mewn rhai asesiadau. Byddai cysylltiadau mwy amlwg o ran effaith y pryder a nodwyd ar y plentyn a'r hyn sydd angen ei newid o fudd er mwyn helpu i sicrhau perchenogaeth teuluoedd dros yr asesiad a'r cynllun yn deillio ohono.
 - 1.7. Dylai'r disgwyliadau o ran arferion mewn perthynas ag asesu grwpiau o frodyr a chwiorydd sicrhau y caiff anghenion unigol y plant eu cofnodi ac yr ymdrinnir â nhw'n unigol yn hytrach nag fel rhan o asesiad cyffredinol ar gyfer y teulu.
 - 1.8. Roedd y cynlluniau dilynol a welwyd wedi'u targedu'n dda ac yn annog teuluoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth dda o ymyriadau, wedi'u hanelu at wella canlyniadau a lleihau risg. Bu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol yn allweddol wrth helpu'r awdurdod i gyflawni ei nod o fentro mewn ffordd ddiogel gan adeiladu ar gryfderau'r teulu. Roedd natur benodol y cynlluniau a welwyd yn gryfder. Dylid cofnodi'r cynnydd a wneir yn erbyn disgwyliadau'r cynllun mewn ffordd fwy amlwg mewn perthynas â phrofiad y plentyn a gallu'r rhieni i newid ar linell amser y plentyn.
 - 1.9. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r broses cyn-achos o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn drylwyr; mae'r penderfyniadau a wneir yn amserol ac maent wedi'u llywio gan asesiadau perthnasol, gan gynnwys asesiadau cyn-geni. Mae'r trefniadau yn drefnus iawn ac wedi'u hategu gan systemau TG penodol i olrhain achosion drwy bob cam o system yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys dyddiadau, cyngor a chanlyniadau o bob cynghorfa gyfreithiol a'r dyddiad adolygu.
 - 1.10. Atgyfnerthwyd y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau proffesiynol. Dim ond ar ôl sesiwn goruchwylio gwaith cymdeithasol â'r rheolwr tîm ac ar ôl cwblhau cyfarfod ymgynghori dilynol ar yr achos â Phrif Swyddog y cynhelir cyfarfodydd cyfreithiol. Mae'r cyfarfodydd proffesiynol hyn yn cynnig cyfle i ystyried unrhyw fylchau mewn asesiadau, cynlluniau ac ymyriadau ac ymdrin â nhw ac i werthuso'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Roedd y staff yn gwerthfawrogi'r dull gweithredu hwn ac yn teimlo bod cadernid y trefniadau yn cynnig cyfleoedd i fyfyrion ac yn helpu i sicrhau bod pob cyfle i osgoi ymyriadau

gan y llysoedd i deuluoedd yn cael ei ystyried mewn ffordd weithredol cyn y cyfarfod porth cyfreithiol.

- 1.11. Mae'r pwyntiau sbardun ar gyfer ystyried yr angen am gyngor cyfreithiol yn rhan greiddiol o drefniadau amddiffyn plant a threfniadau plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod (y drydedd gynhadledd achos a'r ail adolygiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal). Caiff y penderfyniad i gynnal cyfarfod cyfreithiol unwaith eto ei wneud ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog.
- 1.12. Mae cymorth cyfreithiol yn hygyrch ac yn effeithiol ac mae'r staff yn ei werthfawrogi'n fawr. Mae'r gwasanaethau cyfreithiol hefyd yn darparu hyfforddiant arbenigol ar broses y llysoedd gan gynnwys yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae Pennaeth y Gwasanaeth Plant yn cadeirio'r cyngorfeydd cyfreithiol wythnosol ac yn arwain drwy esiampl drwy gynnal ffocws pendant ar lais y plentyn, diogelwch y plentyn a'r camau sydd eu hangen i sicrhau canlyniadau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Roedd cofnodion y cyfarfodydd cyfreithiol a welwyd yn gynhwysfawr ac yn nodi trafodaethau a oedd yn aml yn heriol. O ystyried cymhlethdod y ddynmeg deuluol dan sylw, byddai templed ar gyfer penderfyniadau unigol ar gyfer pob plentyn yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau eglurder yn y broses gwneud penderfyniadau.
- 1.13. Mae teuluoedd sy'n destun gwaith cynllunio cyfreithiol a gwaith cyn-achos yn cael cymorth eang a chyfleoedd i wneud newidiadau effeithiol, cyn y caiff camau cyfreithiol pellach eu cymryd, hyd yn oed pan fydd y trothwy cyfreithiol ar gyfer ymyriadau wedi'i fodloni. Gwelwyd tystiolaeth a oedd yn dangos pan fyddai rhieni yn ymgysylltu'n llwyddiannus er mwyn helpu i wella bywydau eu plant, y byddai'r gwaith cynllunio cyfreithiol yn dod i ben ond y byddai gwasanaethau gofal a chymorth priodol yn parhau fel y bo angen. Lle na chaiff y gwelliannau a nodwyd eu cyflawni, mae'r awdurdod yn cymryd camau amserol ac awdurdodol. Nodwyd bod y llysoedd wedi canmol gwaith cyn-achos y gwasanaeth plant.
- 1.14. Nododd yr aelodau hynny o'r staff y cyfwelwyd â nhw fod graddau trefniadau goruchwylio'r rheolwyr, y cydberthnasau gwaith â theuluoedd a'r ffocws ar y canlyniadau ar gyfer y plentyn yn rhoi hyder iddynt yn eu gallu i wneud penderfyniadau proffesiynol a dealltwriaeth gyffredin o nodweddion arferion da.

2. A oes trefniadau effeithiol ar waith er mwyn hysbysu rhieni a gofalwyr am drefniadau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r hyn y mae'r broses hon yn ei olygu?

- 2.1. Nodwyd bod gwaith yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn digwydd o fewn cyd-destun amgylchedd lle ceir galw cynyddol ac achosion cynyddol gymhleth, gan gynnwys cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau plant.
- 2.2. Mae tuedd ar i lawr mewn perthynas â nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant a'r rheini sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, gan adlewyrchu ei ymrwymiad i atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae trefniadau sicrhau ansawdd ac archwilio datblygedig iawn ar waith gan y gwasanaethau plant ac mae'r trefniadau hyn yn monitro'r poblogaethau hyn yn ofalus ac yn rhoi sicrwydd yn eu cylch.
- 2.3. Mae amrywiaeth dda o wasanaethau help ac atal cynnar sydd wedi ymsefydlu'n gadarn ar gael i blant a theuluoedd. Mae'r Pwynt Cyswllt Unigol yn casglu gwybodaeth yn effeithiol, sy'n helpu i sicrhau bod teuluoedd yn cael cyngor a chymorth amserol ac yn cael eu hatgyfeirio neu eu cyfeirio'n briodol at y lefel briodol o ymyriadau.
- 2.4. Mae gweithlu'r awdurdod yn brofiadol iawn. O ran yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, roedd gan yr aelodau hynny o'r staff y cyfwelwyd â nhw sgiliau cyfathrebu llafar da ac roeddent yn amlwg yn ymrwymedig i sicrhau bod

teuluoedd a phlant a phobl ifanc yn cael digon o wybodaeth am broses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac, yn bwysig, yn atgyfnerthu'r cyfleoedd sydd ar gael i weithio mewn partneriaeth.

- 2.5. Roedd y llythyrau cyn-achos a welwyd yn seiliedig ar y templed arferion gorau o 2021. Rhoddir copi o ddogfen siarter i deuluoedd hefyd sy'n pwysleisio'r awydd i hyrwyddo cydberthynas waith effeithiol sy'n dangos parch o'r ddwy ochr â nhw. Roedd rhieni yn cael gwybodaeth am y cyngor cyfreithiol lleol sydd ar gael fel mater o drefn. O reidrwydd, mae'r iaith a ddefnyddir yn y llythyr yn parhau'n ffurfiol, ond ar y cyfan, roedd yn hawdd i'w dilyn. Unwaith eto, byddai'r broses o nodi'r pryderon yn cael ei hatgyfnerthu pe byddai wedi'i hysgrifennu gan ddefnyddio iaith symlach. Mewn un enghraifft o achos, nid oedd y llythyr a welwyd wedi cael ei addasu mewn ffordd addas i adlewyrchu anghenion dysgu ychwanegol y rhieni. Mae'r awdurdod yn bwriadu datblygu'r llythyrau hyn ymhellach, gan gynnwys llunio fersiynau hawdd eu darllen.
- 2.6. Ni chaiff rhieni a theuluoedd lythyr pan ddaw ymyriadau cyfreithiol i ben, ac felly caiff cyfle ei golli i atgyfnerthu'r newid cadarnhaol a wnaed ac i bwysleisio'r sail ar gyfer unrhyw ymyriadau yn y dyfodol. Trefnir cyfarfodydd Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus â'r rhieni a'u cynrychiolydd cyfreithiol yn rheolaidd er mwyn sicrhau tryloywder y broses gwneud penderfyniadau gan gynnwys unrhyw gynnydd a wnaed neu unrhyw benderfyniad i dynnu'n ôl o'r broses.
- 2.7. Ar hyn o bryd, nid oes gan y gwasanaethau plant unrhyw daflenni na gwybodaeth ysgrifenedig am eu proses o ran yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Rhoddodd pob aelod o'r staff y cyfwelwyd â nhw sicrwydd pendant fod y gweithwyr cymdeithasol yn cyflwyno unrhyw lythyrau cyn-achos yn bersonol â llaw a'u bod yn treulio amser gyda'r teulu yn trafod y ddogfen ac yn rhoi gwybodaeth a chymorth. Nid oedd hyn bob amser wedi'i adlewyrchu'n dda yn y cofnod ysgrifenedig. Caiff proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ei hesbonio'n fanwl yn ystod y cyfarfod cyntaf pan fydd cyfreithiwr y teulu yn bresennol. Er y cydnabyddir bod y diffyg llenyddiaeth ategol yn wendid, mae'r Grŵp Gwella Perfformiad yn ymdrin â'r mater. Y bwriad yw y caiff amrywiaeth o ddeunyddiau eu datblygu ac y caiff y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cynnwys yn y broses.

3. A yw'r trefniadau cynllunio gofal yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?

- 3.1. Mae buddsoddiad parhaus mewn help cynnar a gwasanaethau ychwanegol i deuluoedd yn galluogi teuluoedd i gael gafael ar gymorth, yn aml heb fod angen ymyriadau statudol.
- 3.2. Roedd yr achosion a welwyd yn dangos bod gan y partneriaid ddealltwriaeth glir o'r trothwyon gwasanaeth wrth wneud atgyfeiriadau. Mae gan yr awdurdod systemau sydd wedi'u hymsefydlu fel cyfarfodydd adolygu cymheiriaid â phartneriaid er mwyn sicrhau ansawdd penderfyniadau cynnar.
- 3.3. Caiff camau diogelu amserol eu cymryd lle bydd risg o niwed, gan gynnwys cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achos cychwynnol lle ceir lefelau presenoldeb da. Rhoddir cymorth yn gyflym pan fydd asesiadau yn barhaus, ac roedd y cynlluniau gofal a chymorth dilynol a welwyd yn cynnwys amserlenni realistig ar gyfer cyflawni'r canlyniadau. Caiff cynnydd cynlluniau plant sy'n derbyn gofal a chymorth, cynlluniau amddiffyn plant a chynlluniau plant sy'n derbyn gofal, eu hadolygu'n rheolaidd, yn unol â chanllawiau.
- 3.4. Caiff cynlluniau amddiffyn plant a chynlluniau plant sy'n derbyn gofal eu llywio'n addas gan benderfyniadau a wneir mewn ffora eraill. Er enghraifft, er bod

- swyddogion adolygu annibynnol yn parhau'n briodol annibynnol ar gyfarfodydd cynllunio cyfreithiol a chyfarfodydd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, maent yn cael copïau o'r cofnodion ac yn ymwybodol o benderfyniadau cynllunio cyfreithiol.
- 3.5. Roedd yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn y cynlluniau a welwyd yn gymesur, yn greadigol ac wedi'u cydgyssylltu'n dda. Mae hyn yn sicrhau y gall rhieni ddefnyddio help perthnasol ar yr adeg y mae angen yr help hwnnw arnynt ond mae'n eu hatal rhag cael eu llethu gan gamau cyffredinol. Mae gwaith y Panel Adnoddau, a gaiff ei gadeirio gan uwch-reolwyr, yn cynnwys goruchwylio ceisiadau am wasanaethau, ond mae hefyd yn cynnig cyfle pwysig i ystyried adnoddau amgen fel y bo angen. Gwelwyd enghreifftiau da o ddarpariaeth benodol yn cael ei chomisiynu yn ôl yr angen, er mwyn diwallu angen a aseswyd e.e. asesiad seicolegol annibynnol o blentyn.
- 3.6. Bu'r awdurdod lleol yn rhan o'r gwaith ymchwil 'Mewn Gofal o'u Geni' mewn perthynas â gweithio gyda theuluoedd a allai fod yn destun y broses cyn-achos (Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield). Mewn perthynas â'r achosion a oedd yn cynnwys asesiadau cyn-geni, roedd tystiolaeth dda o'r canlynol:
- Trefniadau priodol ar gyfer nodi risgiau yn gynnar ac atgyfeirio achosion gan weithwyr iechyd proffesiynol. Cydberthnasau gwaith agos â gwasanaethau mamolaeth.
 - Ymateb diogelu amserol i atgyfeiriadau ac asesiadau a arweiniodd at gymryd camau prydlon a chymesur gan staff profiadol a oedd yn canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i blant a theuluoedd.
 - Ymdrechion parhaus sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan weithwyr proffesiynol i ymgysylltu â theuluoedd gan anelu at helpu plant i aros yn y teulu biolegol os oedd yn ddiogel iddynt wneud hynny.
 - Defnydd creadigol o adnoddau a chomisiynu lleoliadau e.e. lleoliadau i deuluoedd a babanod a all bontio i gymorth cymunedol fel y bo angen. Gwelwyd gwaith cynllunio effeithiol wrth gefn yn ystod y cam cyn-achos a arweiniodd at ganlyniadau mwy amserol pan na allai'r rhieni biolegol ofalu am eu plentyn yn y tymor hwy.
 - Clywsom fod menywod a oedd wedi beichiogi sawl gwaith gan arwain at sefyllfa lle roedd angen i'r plant gael eu tynnu o'u gofal, neu yr oedd risg y byddai hynny'n digwydd, yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau gan gynnwys prosiect Pause.
- 3.7. Mae gweithwyr cymdeithasol yn deall pwysigrwydd sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant. Roedd y staff a'r rheolwyr yn hyderus, cyn belled â phosibl, bod pob cyfle i'r plant aros yn rhan o'u teulu uniongyrchol neu estynedig yn cael ei ystyried cyn trafod opsiynau eraill.
- 3.8. Roedd cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod genogramau ac asesiadau hyfywedd cynnar yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i nodi rhwydweithiau teulu posibl a'u defnyddio. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau da o'r ffordd yr oedd cynadleddau grŵp teulu, wedi'u cadeirio gan ddarparwr annibynnol Tros Gynnal, yn cefnogi cynlluniau cymorth cryfach dan arweiniad y teulu i blant ac amser diogel, mwy ystyrion gyda'r teulu.
- 3.9. Atgyfnerthwyd y trefniadau ar gyfer goruchwylio gwaith cynllunio sefydlogrwydd mewn perthynas â phlant sydd wedi'u lleoli â'r teulu o dan drefniadau adran 76, ac mae Prif Swyddog yn cynnal adolygiadau ychwanegol rheolaidd o'r trefniadau hyn. Nod y broses hon yw sicrhau bod cydsyniad yn ystyrion a bod y dull gweithredu a ddefnyddir yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plentyn.
- 3.10. Gwelsom dystiolaeth fod plant yn cael eu rhoi mewn gofal o ganlyniad i benderfyniadau amserol. Roedd y gwaith cynllunio a welwyd yn ymateb i bryderon bod y risg i'r plentyn yn cynyddu ond gan ystyried y posibilrwydd y gellid

gwneud newidiadau cadarnhaol ar yr un pryd. Roedd unrhyw oedi dilynol yn bwrpasol ac ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar les y plentyn. Mae'r ffaith mai Pennaeth y Gwasanaeth Plant sy'n cadeirio'r Panel Derbyniadau yn cynnig haen graffu ychwanegol ac yn sicrhau ffocws cadarn ar ddeall taith y plentyn i mewn i'r system gofal ac allan ohoni, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau effeithiol o ran sefydlogrwydd.

4. A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?

- 4.1. Ceir ethos hawliau plant cryf a chaiff y plant gymorth i ddeall eu hawliau a'u hawliadau. Cânt eu hannog i fanteisio ar gymorth eiriolaeth er mwyn sicrhau y caiff eu llais ei glywed pan fydd cynlluniau yn cael eu llunio ar eu cyfer.
- 4.2. Mae sefydlogrwydd cymharol y gweithlu gwaith cymdeithasol "brodorol" yn golygu bod cydberthnasau'r gweithwyr cymdeithasol â'r plant yn gryfder. Mae meithrin cydberthnasau sefydledig â rhywun y maent yn ei adnabod ac sy'n ymweld â nhw'n rheolaidd ac yn eu gweld ar eu pen eu hunain o fudd i'r plant.
- 4.3. Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn ymdrechu i ddeall safbwynt y plentyn a'i gynnwys, mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran, yn unrhyw asesiadau a chynlluniau. Roedd y rheolwyr a'r gweithwyr cymdeithasol yn hyderus bod y cydberthnasau a gaiff eu meithrin yn sail i arferion, a bod eu dealltwriaeth o brofiad a chyd-destun unigryw'r plentyn yn llywio penderfyniadau proffesiynol. Er ei bod yn gadarnhaol bod dealltwriaeth a gwybodaeth mor fanwl i'w gweld wrth drafod â'r gweithwyr, nid oedd bob amser wedi'i nodi'n gyson yn y cofnod ysgrifenedig.
- 4.4. Anogir gwaith uniongyrchol â'r plant a dywedodd y rheolwyr a'r gweithwyr cymdeithasol wrthym fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod llwythi achosion yn hydrin er mwyn gallu hwyluso'r broses hon. Mae'r gweithwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau gwaith uniongyrchol i'w helpu i feithrin dealltwriaeth o brofiadau'r plentyn. Gwelwyd rhywfaint o waith uniongyrchol ystyrllon, a wnaed ar gyflymder addas i'r plentyn, a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar y plentyn. Dywedodd rhiant wrthym faint roedd yn gwerthfawrogi'r amser roedd y gweithiwr cymdeithasol yn ei dreulio â'i blant yn eu helpu i wneud synnwyr o'r newidiadau diweddar a fu yn y teulu.
- 4.5. Yr adolygiad plant sy'n derbyn gofal yw'r prif fforwm ar gyfer sicrhau bod cynlluniau perthnasol ar waith i hyrwyddo lles cyffredinol y plentyn ac i gyflawni sefydlogrwydd amserol. Caiff cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal eu hadolygu o fewn yr amserlenni gofynnol gan swyddogion adolygu annibynnol profiadol y mae gan lawer ohonynt gydberthynas barhaus â'r plant ac y maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r swyddogion adolygu annibynnol yn cysylltu â'r plant cyn yr adolygiad er mwyn sicrhau y gwrandewir ar y plant. Caiff y plant wahoddiad penodol a chymorth i gyfrannu at eu hadolygiadau, gan gynnwys cymorth neu gynrychiolaeth gan eiriolwr annibynnol. Roedd y swyddogion adolygu annibynnol y siaradwyd â nhw yn hyderus bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun gofal perthnasol amserol a'u bod yn monitro cynnydd hanner ffordd rhwng adolygiadau er mwyn helpu i osgoi achosion posibl o wyro.
- 4.6. Roedd y plant yn yr achosion a welwyd mewn lleoliadau addas a oedd yn diwallu eu hanghenion neu'n cael cymorth i barhau'n ddiogel o fewn eu rhwydwaith teuluol. Roedd dymuniadau a theimladau'r plant, yn enwedig plant hŷn, yn amlwg yn dylanwadu ar benderfyniadau am ble y byddent yn byw. Gwelwyd gwaith cynllunio cydamserol a chyfochrog perthnasol ac roedd yn cael ei ddefnyddio'n

- dda. Er gwaethaf gweithgarwch recriwtio, comisiynu a chymorth lleoli parhaus, cydnabyddir bod diffyg amrywiaeth a dewis o leoliadau ar gael i fodloni'r galw.
- 4.7. Disgrifiodd y gwasanaethau plant a Cafcass Cymru gydbberthnasau gwaith effeithiol. Mae gwaith diweddar a wnaed, gan gynnwys gweithdy ar y cyd, wedi meithrin gwell dealltwriaeth o safbwyntiau a ffiniau proffesiynol, gan atgyfnerthu nodau cyffredin y priod sefydliadau, ar yr un pryd, er mwyn sicrhau canlyniadau da ac amserol i'r plant a chyflawni'r canlyniadau hynny. Dywedodd Cafcass Cymru wrthym fod gwell trefniadau cyfathrebu wedi cael eu hategu gan sefydlogrwydd yng ngweithlu'r gwasanaethau plant a chydabu'r ymdrechion sylweddol a wnaed i roi mwy o bwyslais ar waith cynllunio, er mwyn gwyro teuluoedd o'r llysoedd yn ddiogel.
- 4.8. Nodwyd bod y bwrdd cyfiawnder teuluol lleol yn darparu fforwm defnyddiol ar gyfer datblygu dull gweithredu mwy cydweithredol sy'n cynnig her adeiladol rhwng rhanddeiliaid.

Bydd AGC yn cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol cryno yn seiliedig ar ein canfyddiadau yn ystod Gwanwyn 2023. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer y gweithgarwch hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Yn gywir



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru